
MODIWL 1A RHAN A: FFEITHLEN I FYFYRWYR - Y DIWYDIANT CIG EIDION

Cig eidion sydd yn gyfrifol am 24% o'r prif gigoedd a gynhyrchir yn y byd.





FFIGUR 1 CYNNYRCH CIG EIDION Y BYD 2009 (WWW.FAO.ORG)

Yn 2009 cynhyrchwyd 62.8 miliwn tunnell o gig eidion gan 202 gwlad dros y Byd. O'r rhain roedd 132 gwlad yn cynhyrchu llai na 100,000 tunnell a 11 gwlad yn cynhyrchu mwy na 1,000,000 tunnell (Tabl 1). Yr oedd y 11 gwlad sy'n cynhyrchu mwy na 1,000,000 tunnell yn gyfrifol am 65.6% o'r cyfanswm cynnyrch (www.fao.org a faostat.fao.org ). Cynnyrch Prydain yn 2009 oedd 849,860 tunnell.

| Gwlad | Miliwn tunnell |
|---|---|
| **Ariannin** | 3.4 |
| **Awstralia** | 2.1 |
| **Brasil** | 9.4 |
| **Canada** | 1.3 |
| **Tsiena** | 6.1 |
| **Ffrainc** | 1.5 |
| **Yr Almaen** | 1.1 |
| **Yr Eidal** | 1.1 |
| **Mecsico** | 1.7 |
| **Ffederaliaeth Rwsia** | 1.7 |
| **Unol Daleithiau America** | 11.9 |

**TABL 1 : GWLEDYDD YN CYNHYRCHU >1,000,000 TUNNELL CIG EIDION 2009**

Rhwng 2000-2009 bu cynnydd o 6.56 miliwn tunnell neu 11.7% yng nghynnyrch cig eidion y Byd (Ffigur 2) gyda'r Unol Daleithiau America, Undeb Ewropeaidd, Brasil a Tsiena y pedair brif uned fasnachu. Er bod maint cynnyrch Gweddill y Byd yn sylweddol, ffigwr cyfansawdd ydyw yn cynrychioli nifer o wledydd nad sy'n gweithredu fel un uned masnachol.





**FFIGUR 2 : TUNNELL CYNNYRCH CIG EIDION Y BYD**

Brasil, Tsiena a Gweddill y Byd sy'n gyfrifol am y cynnydd mwyaf mewn tunelli (Tabl 2). Gwelwyd gostyngiad yng nghynnyrch yr Undeb Ewropeaidd a Unol Daleithiau America. O'r cynnydd Brasil sy'n gyfrifol am 42.9%, Gweddill y Byd 39.5% a Tsiena 19.3%.


| **Uned Masnachu** | **% newid mewn tunnell cig eidion a gynhyrchwyd 2000-2009** | **Newid mewn tunnell cig eidion a gynhyrchwyd 2000-2009** | **% cyfraniad i cyfanswm codiad cynnyrch dros y Byd** |
|---|---|---|---|
| Ariannin | 24.3% | 660000 | 10.1% |
| Awstralia | 8.0% | 160010 | 2.4% |
| Brasil | 42.8% | 2816200 | 42.9% |
| Tsiena | 26.4% | 1265625 | 19.3% |
| UDA | -3.3% | -406800 | -6.2% |
| Undeb Ewropeaidd | -6.2% | -524834 | -8.0% |
| Gweddill y Byd | 13.3% | 2592164 | 39.5% |
| Y Byd | 11.7% | 6562365 | |

TABL 2 : NEWIDIADAU YNG NGHYNNYRCH CIG EIDION Y BYD 2000-2009


Erbyn 2009 mae'r pedair prif uned fasnachu cig eidion yn llawer agosach at ei gilydd o ran maint (Ffigur 3) o'i cymharu â flwyddyn 2000 (Ffigur 4) gyda'r Unol Daleithiau America yn parhau i fod y prif gynhyrchydd ac yna yr Undeb Ewropeaidd, Brasil a Tsiena i ddilyn.




**FFIGUR 3 : DOSBARTHIAD CYNNYRCH CIG EIDION Y BYD 2009**





**FFIGUR 4 : DOSBARTHIAD CYNNYRCH CIG EIDION Y BYD 2000**




**FFIGUR 5 CYDBWYSEDD MEWNFORION AC ALLFORION**


Prif allforwyr cig eidion y byd yw'r Ariannin, Awstralia a Brasil. Mae Tsiena fwy neu lai yn hunangynhaliol, Yr Undeb Ewropeaidd yn mewnforio ychydig o gig eidion gyda Ffederaliaeth Rwsia, Unol Daleithiau America, Affrica, De ddwyrain Asia a Gweddill y Byd yn fewnforwyr cig eidion sylweddol. Er mae'r Unol Daleithiau yw un o brif gynhyrchwyr y Byd mae'n mewnforiwr sylweddol hefyd.




**FFIGUR 6 MEWNFORION AC ALLFORION 2009**

### Cig Eidion o fewn yr Undeb Ewropeaidd

Yr Undeb Ewropeaidd yw yn o'r unedau masnach mwyaf i gig eidion. Serch hynny gostwng yn raddol mae'r cynnyrch yn bennaf oherwydd bod nifer gwartheg yn llai a cost bwydydd yn uwch. Disgwylir i'r cynnyrch parhau i gwympo a mewnforion i godi erbyn 2014.




**FFIGUR 7 CYNNYRCH CIG EIDION YR UNDEB EWROPEAIDD**

## SAFLEOEDD WE PERTHNASOL

www.fao.org

FAOSTAT http://faostat.fao.org/site/339/default.aspx

Eurostat http://epp.eurostat.ec.europa.eu/portal/page/portal/eurostat/home/